



Comisiwn Staff  
Gwasanaethau  
Cyhoeddus

Public Services  
Staff Commission

---

# Adroddiad Blynyddol

Ionawr – Mawrth 2016



## Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydliad anstatudol annibynnol yw Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n cynghori Gweinidogion Cymru a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar y materion gweithlu y mae angen gweithredu arnynt a'u datrys yn sgil diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn cydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd cyffredin i'n gwasanaethau cyhoeddus a gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu arferion da o ran trefniadau'r gweithlu a lledaenu'r arferion hynny ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus chwe Chomisiynydd gan gynnwys Cadeirydd, ac mae Prif Weithredwr a thîm o staff yn ei gynorthwyo â'i waith. Ceir mwy o fanylion ar y wefan.

## Sut i gysylltu â Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus:

Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

Plas Carew

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd

CF15 7QQ

Ffôn: 01443 336137

E-bost: [comisiwnstaff@wales-uk.com](mailto:comisiwnstaff@wales-uk.com)

Gwefan: [www.comisiwnstaffygwasanaethaucyhoeddus.llyw.cymru](http://www.comisiwnstaffygwasanaethaucyhoeddus.llyw.cymru)

Twitter: [@comisiwnstaff](https://twitter.com/comisiwnstaff)

## Fformatau hygyrch

Mae pob cyhoeddiad ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan. I gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni.

## Cynnwys

Rhagair	2
Diben yr adroddiad hwn	3
Beth yw Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus?	3
Pwy ydym ni?	6
Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?	6
Rhagolwg	12
Atodiad A – Y cyrff cyhoeddus sy'n rhan o gylch gwaith y Comisiwn	13
Atodiad B – Rhaglen waith 2016-17	14



## Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad 'Blynyddol' cyntaf Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n trafod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Mawrth 2016. Yn y dyfodol, bydd ein hadroddiadau'n trafod cyfnod o ddeuddeg mis ar ei hyd (Ebrill – Mawrth).

Sefydliad newydd yw'r Comisiwn Staff ac fe'i sefydlwyd i gynghori Gweinidogion Cymru a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu.

Mae'r tri mis diwethaf wedi bod yn ddiddorol ac yn fuddiol wrth inni fynd ati i greu sefydliad newydd i fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus yn awr ac yn y dyfodol. Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi cynnull tîm profiadol a chadarn yn Nantgarw i gynorthwyo'r Comisiynwyr i roi ein rhaglen eang ar waith.

Yn ystod y tri mis cyntaf, rydym wedi cwrdd â llawer o'n prif randdeiliaid o bob un o sectorau'r gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y cyrff hynny sy'n rhan o gylch gwaith y Comisiwn Staff a rhai nad ydynt yn rhan ohono. Rwy'n eithriadol o falch bod llawer o'r cyrff nad ydynt yn rhan o'n cylch gwaith wedi dweud eu bod am gydweithio â ni mewn ffordd adeiladol a rhoi sylw i unrhyw gyngor neu ganllawiau a baratoir gennym maes o law.


Yn sgil y gweithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd hyd yma, rydym wedi cael neges glir fod angen mynd ati ar fyrder i ddechrau rhoi sylw i'r materion gweithlu sy'n deillio o'r camau i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Ar adeg pan fo sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio cyflawni rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn ystod cyfnod

o bwysau ariannol nas gwelwyd ei fath o'r blaen ac o alw cynyddol am wasanaethau, mae hefyd yn amlwg bod sefydliadau'n ymdrin â chyd-destun anodd a bod hyn yn effeithio ar forâl y staff. Wedi dweud hynny, mae cyfle inni greu darlun mwy hirdymor o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy feddwl yn greadigol a mynd i'r afael yn gadarnhaol â'r materion gweithlu sy'n codi o'r newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu.

Mae gennym raglen waith uchelgeisiol, ond rydym yn sylweddoli na fydd modd i'r Comisiwn gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i wella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru ar ei ben ei hun. Rwyf innau a'r Comisiynwyr wedi ymrwmo'n llwyr i gydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol, ochr yn ochr â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu, sef y prif gorff y byddwn yn trin a thrafod ag ef.

Drwy gydweithio â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'u hundebau llafur cydnabyddedig, bydd modd inni lunio canllawiau a chyngor priodol sy'n ystyried natur amrywiol gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â'r angen i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth gadarn yr ydym wedi'i chael gennych yn ystod cyfnod sefydlu'r Comisiwn ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i drin a thrafod â chi wrth i gyd-destun y gwasanaethau cyhoeddus ddatblygu a newid.



**Gill Lewis, Cadeirydd**

## Diben yr adroddiad hwn

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a gyflawnwyd gennym rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (y Comisiwn) a'r ffordd y bydd yn gweithredu.

Cymeradwywyd Cylch Gwaith a Chynllun Gweithredol y Comisiwn ym mis Ionawr 2016 ac felly, eleni yn unig, mae'r adroddiad hwn yn trafod cyfnod

byrrach o dri mis. Yn y dyfodol, bydd yr adroddiad hwn yn trafod y cyfnod mwy arferol o ddeuddeg mis a fydd yn estyn o fis Ebrill tan fis Mawrth.

Yn ystod y cyfnod cyn mis Ionawr 2016, buom yn canolbwyntio ar ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r rheini sy'n gweithio yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, sefydlu'r tîm sy'n cynorthwyo'r Comisiwn o ddydd i ddydd a llunio'r Cynllun Gweithredol.

## Beth yw Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus?

Yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus, aeth Llywodraeth Cymru ati i sefydlu corff anstatudol, annibynnol, sef Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, a hynny er mwyn cynghori Gweinidogion Cymru a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus Cymru ar y materion gweithlu y bydd angen mynd i'r afael â nhw a'u datrys yn sgil diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus.

Bwriedir hefyd i'r Comisiwn weithio ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu arferion da o ran trefniadau'r gweithlu a lledaenu'r arferion hynny ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

Fel sefydliad anstatudol, caiff ein Cynllun Gweithredol (y Cynllun) ei roi ar waith drwy'r cylch gwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr

2016 o dan a60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006)<sup>1</sup>.

Bwriedir sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus statudol drwy Fil Llywodraeth Leol (Cymru) a fydd yn dod i rym tua diwedd 2017 a dechrau 2018.

Daw ein blaenoriaethau strategol o'r ddogfen 'Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' (2012)<sup>2</sup> ac maent yn canolbwyntio ar:

1. creu gweithlu llawn brwdfrydedd a chymhelliant sy'n perfformio'n dda
2. denu a chadw pobl ddawnus
3. datblygu sgiliau
4. sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/contents>

<sup>2</sup> <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/120525worktogethercy.pdf>



Cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredol cyntaf ym mis Ionawr 2016 gan gydnabod y bydd y ffordd y byddwn yn cydweithio ag eraill yn hollbwysig er

mwyn cyflawni ein hamcanion strategol a helpu i ddangos ein hannibyniaeth. Felly, mae'r egwyddorion a ganlyn yn berthnasol:

Bydd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffynhonnell cyngor awdurdodol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sydd o fewn ei gwmpas.

Byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu, undebau llafur a chyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd cyffredin i'n gwasanaethau cyhoeddus a gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu arferion da o ran trefniadau'r gweithlu, a lledaenu'r arferion hynny, gan gynnwys recriwtio a chadw staff, ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn un pwynt cyfeiriol a fydd yn sicrhau gwell cysondeb, cydlyniant a chydgyssylltiad o ran trefniadau'r gweithlu er mwyn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn ystod y broses o ddiwygio'r gwasanaethau cyhoeddus, gan hybu tegwch a thriniaeth deg.


Ni fyddwn yn disodli trefniadau cydfargeinio ac ni fyddwn yn ymyrryd mewn anghydfodau lleol rhwng Gweinidogion Cymru, undebau llafur a chyflogwyr.

Yn Atodiad A, ceir crynodeb o'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n rhan o'n cylch gwaith. Rydym wedi croesawu awgrym sefydliadau a sectorau eraill tu hwnt

i'r cylch gwaith ffurfiol hwn eu bod yn awyddus i ddylanwadu ar y cyngor awdurdodol a gyhoeddir gennym ac i'r cyngor hwnnw ddylanwadu arnyn nhw.

Byddwn hefyd yn cynnwys yn ein gwaith y nodau cyffredin y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n mynd ati i'w cyflawni fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>3</sup>, sef:

## Nodau Llesiant



Byddwn yn ystyried y gwerthoedd a'r credoau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nogfen Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru<sup>4</sup> a byddant yn llywio'r ffordd yr ydym yn gweithio, yn newid diwylliant ac yn ymddwyn:

- rhoi blaenoriaeth i ddinasyddion
- trin pawb â pharch
- gweithio gyda'n gilydd
- tyfu a gwella bob amser
- gweithio ar gyfer y tymor hir.

<sup>3</sup> <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf>

<sup>4</sup> <http://www.academiwales.org.uk/Content.aspx?SitePageContentID=3227&SitePageID=434&Mode=Cym>



## Pwy ydym ni?

Mae'r Comisiwn yn cynnwys chwe Chomisiynydd gan gynnwys Cadeirydd:

- **Gill Lewis** – Cadeirydd; penodwyd ym mis Awst 2015
- **Martin Mansfield** – penodwyd ym mis Medi 2015
- **Sally Ellis** – penodwyd ym mis Medi 2015
- **Graham Jones** – penodwyd ym mis Medi 2015
- **Margaret Foster** – penodwyd ym mis Medi 2015
- **Harry Thomas** – penodwyd ym mis Medi 2015

Penodwyd y Cadeirydd a'r Comisiynwyr drwy'r broses penodiadau cyhoeddus.

Alison Phillips yw'r Prif Weithredwr a dechreuodd yn ei swydd ym mis Tachwedd 2015. Penodwyd y Prif Weithredwr drwy broses recriwtio allanol agored.

Mae ein tîm wedi'i leoli yn Nantgarw ac mae'r staff yn gweithio ar secondiad o gyrrff cyhoeddus.

## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

### Ymgysylltu a chyfathrebu

Mae ein blaenoriaethau a'n cylch gwaith yn eang. Mae gennym hefyd ystod eang ac amrywiol o randdeiliaid. Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â nhw mewn ffordd gyson ac effeithiol.

Fel sefydliad newydd, aethom ati'n gyflym ym mis Ionawr i godi ymwybyddiaeth o'r Comisiwn fel sefydliad, ac i sicrhau bod mwy yn dod i ddeall ein diben, pwy ydym ni, sut i gysylltu â ni a pha waith yr ydym yn bwriadu ei gyflawni. Anfonwyd llythyrau at yr holl gyrrff sy'n rhan o'n cylch gwaith i gyflwyno'r Comisiwn ac i gynnig cwrdd â nhw.

Mae gennym dudalen ar wefan Llywodraeth Cymru a bu modd inni gyhoeddi ein Cynllun yno.

Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2016, bu inni gwrdd â'r rhan fwyaf o'r cyrrff cyhoeddus sy'n rhan o'n cylch gwaith ffurfiol a llawer o randdeiliaid a grwpiau sector eraill sy'n awyddus i gydweithio â ni.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn, rydym wedi profi cynnwys ein Cynllun a chael gwybod am faterion penodol sy'n effeithio ar sefydliadau unigol a materion sy'n croesi ffiniau sefydliadau. Rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i bennu cyfleoedd i gydweithio ac i rannu pobl, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.



Mae'r rheini sydd wedi cwrdd â ni hyd yma wedi croesawu'r cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb, a hynny er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chreu perthynas waith adeiladol. Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu mewn ffordd sy'n sicrhau bod modd inni:

- ddeall natur y mater o dan sylw, ei hyd a'i led a faint o frys sydd i fynd i'r afael ag ef
- deall yr effaith debygol ar y staff ac ar y gwasanaeth cyhoeddus y mae'n rhaid ei ddarparu
- rhoi cyfle i drafod ac i gael adborth cyn inni lunio ein cyngor terfynol
- llunio cyngor cynaliadwy a chreadigol ond ymarferol ar y materion o dan sylw.

Ni fwriedir inni ddisodli trefniadau cydfargeinio rhwng cyflogwyr ac undebau llafur. Fodd bynnag, rydym am sicrhau ein bod ar gael i sefydliadau a staff sydd â diddordeb yn ein gwaith ac sydd am gyfrannu ato. Byddwn yn cydweithio â chyflogwyr ac undebau llafur i wneud y gorau o'r dulliau cyfathrebu sydd gennym ar hyn o bryd. Ym mis Mai 2016, byddwn yn lansio ein gwefan ein hunain er mwyn i bobl gael hyd i ragor o wybodaeth a chael gwybod am ddatblygiadau.

Ar ein gwefan, byddwn yn cyhoeddi ein cyngor a'n canllawiau i Weinidogion a sefydliadau, yn ogystal â gwybodaeth am y sefydliad, gan gynnwys ein Cynllun Gweithredol, ein Hadroddiad Blynyddol, ac agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd.

Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn amlwg ac rydym yn fodlon cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n trafod materion gweithlu a drefnir gan eraill yn ystod

2016-17, yn ychwanegol at unrhyw ddigwyddiadau y byddwn ni yn eu trefnu.

## Y berthynas â Chyngor Partneriaeth y Gweithlu

Byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr i'n helpu i gyflawni ein nod o roi gwybodaeth i holl staff y gwasanaethau cyhoeddus ac i wneud y gorau o'r cyfleoedd inni wrando arnynt ac ystyried yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym pan fyddwn yn paratoui ein cyngor. Mae'r bobl yr ydym wedi cwrdd â nhw wedi ein holi ynghylch y berthynas rhyngom a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu. Mae'r Cyngor Partneriaeth yn dwyn ynghyd undebau llafur, cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithredu ar sail gwerthoedd partneriaeth gymdeithasol.

Y Cyngor Partneriaeth fydd y prif gorff y byddwn yn trin a thrafod ag ef, a byddwn yn cydweithio'n agos ag ef a'i Gydysgrifenyddion i gyflawni hyn. Y Cyngor Partneriaeth fydd yn cael y cyfle cyntaf i ystyried y dull a ddefnyddir gan y Comisiwn i gyflawni ein rhaglen waith a'r camau i lunio ein Cynllun, ynghyd â'r cyfle cyntaf i ddylanwadu ac i roi sylwadau arnynt. Byddwn yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Cyngor Partneriaeth, a thrwy'r Cydysgrifenyddion, i drafod y gwaith sy'n dod i'r amlwg a drafftiau cynnar o'n hallbynnau.

Bu inni gyfarfod â'r Cyngor Partneriaeth ym mis Hydref 2015, mis Rhagfyr 2015 a mis Mawrth 2016.



## Y berthynas â Llywodraeth Cymru

Mae pobl wedi ein holi'n amlach am y berthynas rhyngom a Llywodraeth Cymru. Mae i'r berthynas hon dair agwedd wahanol:

### Lletya

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig ein 'lletya'. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ei bod yn darparu cymorth ymarferol i redeg swyddfa o ddydd i ddydd, fel cyfleusterau, TGCh, systemau adnoddau dynol a chyllid. Felly, rydym yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau ac rydym yn defnyddio systemau adnoddau dynol Llywodraeth Cymru i hysbysebu swyddi ac i recriwtio staff.

### Noddi

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithredu fel 'noddwr', a hynny'n bennaf i sicrhau bod y prif nodau ac amcanion a nodwyd yn y cylch gwaith a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru'n cael eu bodloni.

Fel 'noddwr', mae Llywodraeth Cymru'n hybu rôl a diben y Comisiwn o fewn Llywodraeth Cymru, yn ein cynorthwyo ni i wybod pwy i gysylltu ag ef o fewn Llywodraeth Cymru i gael gwybodaeth ac yn darparu dolen gyswllt â Gweinidogion Cymru. Mae'r 'noddwr' hefyd yn hybu safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol ac atebolrwydd ariannol.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n ymwneud â phroses benderfynu'r Comisiwn o ddydd i ddydd. Y Prif Weithredwr a'r Comisiynwyr sy'n gyfrifol am hyn.

### Cyflogwr

Yn amodol ar ofynion Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 mae Llywodraeth Cymru, yn wirfoddol yn ystyried ei hun o fewn y cylch gwaith a bydd yn cymryd sylw o a chymhwyso ein canllawiau ar yr un sail â chyrrff eraill.

## Y Cynllun Gweithredol

Cychwynnwyd ar y gwaith o lunio ein Cynllun Gweithredol ym mis Tachwedd 2015. Cawsom wybod bod angen mynd ati ar fyrder i ddechrau mynd i'r afael â goblygiadau'r camau i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus Cymru o ran y gweithlu, ni waeth i ba gyfeiriad y byddant yn mynd. Rydym hefyd yn deall y cyd-destun y mae cyflogwyr yn ymdrin ag ef o ran morâl staff ar adeg pan fo sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio cyflawni rhagor o arbedion effeithlonrwydd yn ystod cyfnod o bwysau ariannol nas gwelwyd ei fath o'r blaen ac o alw cynyddol am wasanaethau.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn hollbwysig i bawb sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru neu'n ymweld â hi, ond mae'r arian sydd ar gael yn gostwng ac mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu gweledigaeth o greu 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' fel y nodir isod. Rydym wedi cynnwys dull 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru' yn ein Cynllun ni. Y nod yw:

- canolbwyntio ar gydweithio i wella gwasanaethau i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a chyda'r bobl hynny
- sicrhau bod gan ein gwasanaethau cyhoeddus hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol ac i fodloni gofynion lleol

- dymuno i weithwyr proffesiynol weithio ar draws ffiniau, gan ganolbwyntio ar anghenion unigolion, a sicrhau bod y dinasyddion hynny'n bartneriaid cyfartal wrth benderfynu pa gymorth y maent yn ei gael
- grymuso gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus i wneud eu gwaith a chydweithio â phartneriaid cymdeithasol i newid gwasanaethau
- cymell gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus i arloesi ac i chwilio'n ddi-baid am ffyrdd o wella'r gwasanaethau a ddarperir
- rhoi gwerth ar y gweithlu a'i drin yn deg.

Mae ein Cynllun yn adlewyrchu'r cylch gwaith a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru ynghyd â barn Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, sef y prif gorff y byddwn yn trin a thrafod ag ef, a rhanddeiliaid eraill. Mae copi o'r Cynllun ar gael ar ein gwefan ac mae crynodeb ohono ar gael yn Atodiad B.

Rydym yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn ystod 2015-16, gwariwyd £138k yn bennaf ar gostau'r Comisiynwyr, staff ac offer TGCh. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo cyllideb amlinellol o £650k ar gyfer 2016-17.

## Contractau heb oriau wedi eu gwarantu


Gofynnodd Llywodraeth Cymru inni *'baratoi canllawiau ar gyfer cyflogwyr sector cyhoeddus Cymru i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch yr arfer o ddefnyddio contractau heb oriau wedi eu*

*gwarantu (a elwir weithiau'n gontractau dim oriau) fel yr effaith ar ddarparu gwasanaethau neu gadw staff. Bydd hyn yn pennu disgwyliadau clir o ran yr arferion y dylem ddisgwyl i bob cyflogwr yn y sector cyhoeddus eu defnyddio i sicrhau na chaiff contractau o'r fath eu defnyddio'n amhriodol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi cyngor caffael i bennu disgwyliadau tebyg ar gyfer contractwyr gwasanaethau cyhoeddus. Dylai'r Comisiwn gyd-drafod â gwasanaeth caffael Llywodraeth Cymru a llunio canllawiau drafft i ymgynghori arnynt yn y gwanwyn/haf 2016'.*

Rydym wedi ymgysylltu â phedwar grŵp sector Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, sef addysg, iechyd, llywodraeth leol a'r sector datganoledig, er mwyn bwrw ymlaen â'n gwaith yn y maes hwn.

Yn y cyfarfodydd hyn, bu modd inni gytuno ar gwestiynau i'w gofyn i gyflogwyr ynghylch eu defnydd o gontractau heb oriau wedi eu gwarantu, ceisio pennu astudiaethau achos perthnasol a deall yr ystod o bryderon sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gontractau.

Rydym wedi cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad ar y defnydd o gontractau heb oriau wedi eu gwarantu ym maes gofal cartref i sicrhau bod ein gwaith yn cydweddu ag ef. Rydym hefyd wedi cwrdd â Gwerth Cymru i ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer contractau caffael ac i lunio safonau caffael moesegol yng Nghymru. Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo a byddwn yn adrodd arno yn yr haf 2016.



## Tryloywder trefniadau tâl a chydabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

O ran trefniadau tâl a chydabyddiaeth ariannol uwch swyddogion, gofynnodd Llywodraeth Cymru inni ‘ystyried tâl Awdurdodau Lleol yng nghyd-destun sector cyhoeddus ehangach Cymru a chydweithio â'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ôl yr angen’. Dywedodd Gweinidogion Cymru y byddent ‘yn croesawu cyngor ar y Fframwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, “Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru”, yn ystod cyfnod y Comisiwn a heb fod yn hwyrach na diwedd 2016’.

Mae'r Fframwaith yn pennu tair egwyddor sef i) cysondeb, ii) tryloywder a iii) mynediad ac mae'n argymhell trefniadau adrodd sy'n cynnwys i) datganiadau polisi tâl blynyddol a ii) adroddiadau blynyddol. Y prif nod yw sicrhau mwy o dryloywder o ran tâl uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru a mwy o graffu arno. Bwriedir adolygu'r egwyddorion yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol a newidiadau polisi ac wrth i'r setliad datganoli ddatblygu.

Byddwn yn canolbwyntio ar y modd y mae'r egwyddorion a rannwyd ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu rhoi ar waith, gan gyflawni asesiad annibynnol i weld a yw'r camau a gymerwyd yn rhoi darlun hygyrch a chilir i'r dinasyddion o'r trefniadau tâl mewn unrhyw sefydliad penodol ond hefyd ar draws y sector cyhoeddus.

Rydym wedi mynd i'r afael â'r gwaith hwn mewn dau gam:

- **Cam 1** – sut y cafodd yr egwyddorion eu rhannu a sut y cafodd y cyd-destun a'r gofynion eu hegluro wrth y cyrff y maent yn effeithio arnynt.
- **Cam 2** – cyflawni asesiad annibynnol o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau eraill a restrir yn ein cylch gwaith.

Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o adolygu'r datganiadau polisi tâl a gyhoeddwyd gan lywodraeth leol a byddwn yn adolygu datganiadau sefydliadau eraill pan gânt eu cyhoeddi dros yr haf. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau interim yn yr hydref 2016.

## Diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus – newidiadau strwythurol

Rydym hefyd wedi ystyried y meysydd hynny lle mae'n debygol y bydd angen canllawiau ar y Pwyllgorau Pontio er mwyn iddynt gynllunio ar gyfer goblygiadau'r Bil Uno Llywodraeth Leol Drafft o ran y gweithlu. Bydd y Pwyllgorau Pontio'n cynorthwyo â'r gwaith o bontio o'r naill strwythur i'r llall.

Rydym yn bwriadu dod â'r prif randdeiliaid ynghyd i feithrin ymddiriedaeth ac i gytuno ar yr egwyddorion o ran sut y byddwn yn mynd ati i baratoi canllawiau, i gasglu tystiolaeth, i benderfynu ac i gyfathrebu. Un o'r prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arno yw sut i sicrhau bod y gweithlu'n cael gwybod am hynt y gwaith a pha sicrwydd y gellir ei roi iddynt yn ystod ddiwygio.

Rydym yn bwriadu cydweithio â Grŵp Sector Llywodraeth Leol y Cyngor Partneriaeth a manteisio ar wybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid perthnasol eraill.

O ran ein gweithgareddau ymgysylltu, daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg yn ystod ein cyfarfodydd ag awdurdodau lleol, undebau llafur a phobl sy'n gweithio tu allan i faes llywodraeth leol. Bu iddynt bennu meysydd lle y gallent groesawu canllawiau a chyngor annibynnol gan y Comisiwn. Yn gyffredinol, roeddent yn teimlo bod angen mynd i'r afael â llawer o'r themâu hyn, ni waeth pa strwythurau y cytunir arnynt yn y pen draw ar gyfer llywodraeth leol, a'u bod yn berthnasol i rannau eraill o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru hefyd. Ymhlith y themâu a nodwyd mae:

- pennu a datblygu arweinwyr sefydliadau
- recriwtio a chadw prif weithredwyr ac uwch swyddogion
- cysoni polisïau ac arferion cyflogaeth
- strwythurau trefniadol a disgrifiadau swyddi
- cynlluniau pensiwn
- trefniadau rheoli perfformiad
- systemau adnoddau dynol a'r gyflogres.

Rydym yn bwriadu cynnal nifer o weithdai yn ystod yr haf 2016 gyda'r nod o gyhoeddi cyfres o ganllawiau yn ystod ail hanner 2016 a 2017.

## Arferion da

Un o'n prif nodau yw cefnogi'r camau i ddatblygu ac i rannu arferion da o ran trefniadau'r gweithlu ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

Felly, rydym wedi comisiynu darn byr o waith i adolygu'r dystiolaeth o'r rhwystrau rhag rhannu arferion da, gan ddwyn y dystiolaeth ddiweddar sydd ar gael yn y maes ynghyd a phennu bylchau o ran ymchwil yn y maes, a hynny i wneud yn siŵr ein bod yn ystyried y rhwystrau hyn, ac yn rhoi sylw iddynt, pan fyddwn yn cyflawni ein nod.

Rydym yn gwybod am Arfer Da Cymru a'r porth sy'n sicrhau bod modd cael gafael ar wybodaeth ar-lein. Rydym wedi cwrdd â'r rheini sy'n ymwneud â'i sefydlu a'i hybu a byddwn yn parhau i gyd-drafod wrth i'n gwaith fynd rhagddo.



## Rhagolwg

Yn ogystal â gwneud rhagor o gynnydd yn y meysydd gwaith yr ydym eisoes wedi cyfeirio atynt, rydym yn bwriadu gwneud cynnydd yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2016-17:

- Paratoi canllawiau arferion da i hwyluso trefniadau strategol i gynllunio'r gweithlu mewn cyrff cyhoeddus ac ar draws cyrff cyhoeddus.
- Cytuno ar alluoedd a nodweddion gofynnol yr arweinwyr y bydd eu hangen ar Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru a'r dull o recriwtio, cadw a datblygu arweinwyr y dyfodol i weithio yng Nghymru drwy bennu'r gwerthoedd, y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad gofynnol.
- Ystyried argymhelliad y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ar y Modelau Darparu Amgen i Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus, sef y dylid pennu'r materion allweddol o ran y gweithlu sy'n deillio o ddatblygu modelau darparu amgen, a chynghori yn eu cylch, gan ystyried gallu sefydliadau a chwmnïau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.
- Ystyried argymhelliad adroddiad yr Adolygiad o Weithlu GIG Cymru, sef y dylai'r Comisiwn ystyried y posibilrwydd o sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer gwerthuso swyddi a chydabyddiaeth ariannol swyddi gweithredol a swyddi uwch ar draws sector cyhoeddus Cymru.

## Atodiad A – Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cwmpas

Mae'r cyrff gwasanaethau cyhoeddus y mae cylch gwaith y Comisiwn anstatudol yn ymdrin â hwy'n cynnwys ar hyn o bryd:

- Cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru
- Cyngor tref neu gymuned
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG
- Cyngor Gofal Cymru
- Corff llywodraethu ysgol neu ffederasiwn a gynhelir
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

Yn amodol ar ofynion Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 mae Llywodraeth Cymru (fel cyflogwr), yn wirfoddol yn ystyried ei hun o fewn y cylch gwaith a bydd yn cymryd sylw o a chymhwyso ein canllawiau ar yr un sail â chyrff eraill.

## Atodiad B – Rhaglen Waith 2016-17

### Trawsnewidiol

Ymagwedd Un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n datblygu'r arweinwyr gorau sy'n ennyn hyder ymysg eu staff a'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Ymagwedd Un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n hyrwyddo ei arferion da ei hun i eraill o ran staff ac sy'n fodlon mabwysiadu arferion da sydd wedi'u datblygu mewn mannau eraill.

### Trosglwyddadwyedd

Ymagwedd Un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n cyflogi gweithlu o'r radd flaenaf gyda chymysgedd sgiliau cynaliadwy.

Ymagwedd Un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n gefnogol i gyfleoedd i ddatblygu gyrfa a dysgu ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.

### Trafodol

Ymagwedd Un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n defnyddio ei systemau a'i gyfleusterau a thechnoleg ddigidol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Ymagwedd Un gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n symud tuag at fwy o gysondeb a thriniaeth deg i weithluoedd gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid.